Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2018 – 2019

Pennaeth Strategol

Mrs Jano Owen

Gweledigaeth Ysgol Bro Idris:

“Creu ysgol sy’n sicrhau fod pob dysgwr yn hapus a diogel ac yn cyrraedd ei lawn botensial yn addysgol, llesol a chymdeithasol.”

swyddfa@broidris.gwynedd.sch.uk	@ysgolbroidris	Llwyddiannau Ysgol Bro Idris

Ysgol Bro Idris
Ffordd y Aran
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1HY

01341424949

Annwyl Rieni

Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i'r Rhieni

Yn Unol â Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 nid oes rhaid i Gyrff Llywodraethwyr yr ysgol gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r ddeddf yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr Ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn. Gellir cael fwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod unai drwy gysylltu gyda'r Ysgol, Safle we'r ysgol, Uned Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg neu Safle we'r Cynulliad:- https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Llyodraethwyr/Canllawiau-Cyfarfod-gyda-Rhieni.pdf

Ni dderbyniwyd cais i gynnal Cyfarfod Blynyddol i rieni.

Yn gywir

Eirian R Hoyle

Miss Eirian R Hoyle
Clerc Llywodraethwyr

Cyfarfodydd y Corff Llywodraethol 2019 – 2020

Cyfarfodydd Llawn Llywodraethwyr
Nos Lun, 23ain o Fedi, 2019 am 6 o'r gloch.
Nos Lun, 21ain o Hydref, 2019 am 6 o'r gloch.
Nos Lun, 9fed o Ragfyr, 2019 am 6 o'r gloch.
Nos Lun, 23ain o Fawrth, 2020 am 6 o'r gloch
Nos Lun, 13eg o Orffennaf, 2020 am 6 o'r gloch.

Cyfarfodydd Is-banel Cyllid, Adeiladau
Nos Lun, 14eg o Hydref, 2019 am 5:30 o'r gloch
Nos Lun, 2ail o Rhagfyr, 2019 am 5:30 o'r gloch
Nos Lun, 9fed o Fawrth, 2020 am 5:30 o'r gloch
Nos Lun, 11eg o Fai, 2020 am 5:30 o'r gloch

Cyfarfodydd Is-Banel Cwricwlwm a Pholisiau
Nos Lun, 30ain o Fedi, 2019 am 5:30 o'r gloch
Nos Lun, 18fed o Dachwedd, 2019 am 5:30 o'r gloch.
Nos Lun, 2ail o Fawrth, 2020 am 5:30 o'r gloch.
Nos Lun, 8fed o Fehefin, 2020 am 5:30 o'r gloch.

Amserlen Craffu ar Lyfrau ar gyfer Llywodraethwyr
Dydd Llun, 7fed o Hydref, 2019
Dydd Llun, 2ail o Ragfyr, 2019
Dydd Llun, 10fed o Chwefror, 2020
Dydd Llun, 30ain o Fawrth, 2020
Dydd Llun, 29ain o Fehefin, 2020

Cynhelir bob cyfarfod yn yr Ystafell Gyfarfod am 5 o'r gloch.

Amserlen Ymweliadau a Sgwrs gyda Disgyblion ar gyfer Llywodraethwyr.
Dydd Gwener, 29ain o Dachwedd 2019
Dydd Gwener, 27ain o Fawrth, 2020
Dydd Gwener, 3ydd o Orffennaf, 2020

Amserlen Teithiau Dysgu ar gyfer Llywodraethwyr

Tachwedd 11 – 21ain, 2019
Mawrth 9fed – 20fed, 2020

Dyma'r ddogfennaeth a ddanfonir i ofyn am enwebiad Rhiant Lywodraethwyr

Pennaeth Strategol – Strategic Headteacher
Mrs Jano Owen
Ysgol Bro Idris, Ffordd yr Aran
Dolgellau
Gwynedd. LL40 1HY

01341424949

Hydref 2019

AT RIENI DISGYBLION YSGOL BRO IDRIS

Annwyl Riant

Ethol Cynrychiolwyr Rhieni ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol

Mae angen cynrychiolydd rhieni i weithredu ar Gorff Llywodraethu'r ysgol am gyfnod o bedair blynedd o'r **1af o XXXXXX XXXX. Gall unrhyw riant (neu bersonau sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn ôl Deddf Plant 1989), sydd â phlentyn yn yr ysgol, sefyll etholiad i weithredu ar y corff llywodraethu, a phleidleisio yn yr etholiad.** Un bleidlais a roddir i riant, faint bynnag o blant sydd ganddo/i yn yr ysgol. Rhoddir pleidlais ar wahân i fam a thad a phersonau sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn ôl Deddf Plant 1989.

Etholir y cynrychiolwyr fel a ganlyn:

1. Enwebiadau - Gwahoddir chi i anfon enwebiadau at y Pennaeth gan ddefnyddio'r ffurflen amgaeedig. Gall unrhyw riant enwebu ei hun neu cewch enwebu rhiant ond dylech sicrhau bod y person a enwebir gennych yn arwyddo ei fod/bod yn fodlon i'w enw/henw gael ei gyflwyno. Dylai'r enwebiad ddod i law'r Rheolwr Busnes a Chyllid ym Mhrif Safle Ysgol Bro Idris erbyn, **dydd XXXXX XXX XXXX XXX.**

2. Pleidleisio – Rhestrir yr holl enwebiadau ar y papur pleidleisio. Rhoddir papur pleidleisio, wedi'i rifo i bob rhiant ac fe'i anfonir at y rhai sydd â hawl pleidleisio mewn amlen heb ei selio trwy law'r disgyblion, a dylid ei ddychwelyd yn yr amlen (wedi ei selio gan y rhiant), erbyn y dyddiad a nodir arno. Bydd yr etholiad yn gyfrinachol a'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif ym mhresenoldeb person diduedd.

3. Cynrychiolwyr – Bydd y Pennaeth yn gwneud trefniadau i hysbysu rhieni pwy yw'r cynrychiolwyr a etholir a bydd ar y Corff Llywodraethu am bedair blynedd oni ymddiswydda yn y cyfamser.

Os dymuna unrhyw riant gael mwy o wybodaeth ynglŷn â swyddogaeth rhieni-lywodraethwyr, gellir cael manylion pellach gan Adran Cefnogi Llywodraethwyr, Swyddfa Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Caernarfon.

Diolchaf ymlaen llaw mewn rhagdybiaeth o'ch cydweithrediad.

Yn gywir
Jano Owen
Mrs Jano Owen
PENNAETH STRATEGOL. Amg

ESIAMPL O FFURFLEN ENWEBU

Papur Enwebu cynrychiolydd rhieni ar gyrff llywodraethu ysgolion bydd angen UN cynrychiolydd o'r newydd o fis XXXXXX 201X
Parents' representative's nomination paper for a secondary school governing body which requires ONE new representative from, XXXXXX 201X

CORFF LLYWODRAETHU YSGOL BRO IDRIS
YSGOL BRO IDRIS GOVERNING BODY
Ethol Cynrychiolydd Rhieni/*Election of Parent's Representative*

Dymunaf gael fy enwebu'n gynrychiolydd rhieni neu Dymunaf enwebu'r person a ganlyn yn gynrychiolydd rhieni:
I wish to be nominated as parents' representative or I wish to nominate the following person as parents' representative:

Enw/*Name:* _____

Cyfeiriad/*Address:* _____

_____

Llofnod y Rhiant sydd yn cael ei enwebu:
Signature of Parent being nominated: _____

Dyddiad/*Date:* _____

Gall pob ymgeisydd gyflwyno manylion amdano'i hun i'w gynnwys ar y papur pleidleisio, ond ni ddylai fod yn fwy na dwy frawddeg (pedair os rhoddir manylion yn ddwyieithog). Dylid atodi'r wybodaeth gyda'r papur enwebu.

Each candidate may present information about him/herself, which will be included on the voting paper, but it should be no longer than two sentences (four if it is presented bilingually). The information should be returned with the nomination paper.

Dyddiadau y Tymor, HMS ac Amseroedd yr ysgol 2019-2020

GWYLIAU YSGOL 2019-2020

TYMOR: Hydref 2019
2 Medi 2019 - 20 Rhagfyr 2019

TYMOR: Gwanwyn 2020
6 Ionawr 2020 - 3 Ebrill 2020

TYMOR: Haf 2020
20 Ebrill 2020 - 20 Gorffennaf 2020

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 3 Medi, 2019.

GWYLIAU:
28 Hydref – 1 Tachwedd 2019 (Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2019 - 3 Ionawr 2020 (Gwyliau'r Nadolig)
17-21 Chwefror 2020 (Hanner-Tymor)
6 - 17 Ebrill 2020 (Gwyliau'r Pasg)
8 Mai 2020 (Calan Mai)
25 - 29 Mai 2020 (Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf - 31 Awst 2020 (Gwyliau'r Haf)

Dyddiadau HMS (Ysgol ar gau i ddisgyblion)
2 Medi 2019
30 Medi 2019
22 Tachwedd 2019
6 Ionawr 2020
20 Gorffennaf 2020

Y Diwrnod Ysgol

Cofrestru	Dechrau	Gorffen
Gwers 1	8.50	9.05
Gwers 2	10.00	10.50
EGWYL	10.50	11.05
Gwers 3	11.05	11.55
Gwers 4	12.00	12.50
CINIO	12.50	1.30
Gwers 5	1.30	2.30
Gwers 6	2.30	3.20

Prydlondeb, Presenoldeb ac Absenoldebau

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlondeb yn holl bwysig os yw disgyblion am fod yn llwyddiannus yn yr ysgol. Disgwyliwn i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol a'r gwersi yn brydlon. Os yw rhieni yn dymuno mynd a'u plant ar wyliau yn ystod amser ysgol, dylid gofyn caniatád y Pennaeth Strategol trwy gysylltu â hi i drafod y cais. Os na wneir hyn, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel un 'Heb Awdurdod', ac yn cael ei drin felly. Pwysleisir nad ydym o blaid i ddisgyblion fethu ysgol ar gyfer gwyliau. Gyda nifer o gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster yn dibynnu ar bresenoldeb, cynghorir chwi i beidio â threfnu gwyliau i ddisgybl ym Mlwyddyn 10 neu 11 yn ystod tymor ysgol. Mae hyn hefyd yr un mor bwysig yn adeg y Profion Cenedlaethol ar gychwyn pob Mai ar gyfer Blynyddoedd 2 hyd at 9. Ym Mlynyddoedd 7 i 11, bydd yr ysgol hefyd yn monitro presenoldeb disgyblion ym mhob gwers. Am resymau diogelwch, ni fydd disgyblion Blwyddyn 7 i 11 yn cael gadael tir yr ysgol heb ganiatad y Pennaeth Ffês 2/3, a/neu y Pennaeth Strategol a'r Dirprwy Bennaeth.

Presenoldeb Ysgol Bro Idris ar gyfer 2018/19 yw 94.6%

2018 - 2019

Absenoldeb Awdurdodedig	Absenoldeb anawdurdodedig
5.5%	1.0%

Canlyniadau 2019 Ysgol Bro Idris yn Arddangos Cynnydd Cadarn

Mae canlyniadau 2019 Ysgol Bro Idris yn arddangos cynnydd cadarn draws yr holl gyfnodau allweddol o'u cymharu â llynedd (2018)

Ar ddiwedd Blwyddyn 2, mae canlyniadau yn dda iawn ac yn arddangos cynnydd ardderchog yn y niferoedd sydd wedi cyrraedd Deilliant 5 + yn Iaith a Llythrennedd a Datblygiad Mathemategol. Gwelir cynnydd rhagorol yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen hefyd. Mae cynnydd sylweddol yng nghanlyniad Deilliant 6 - Personol a Chymdeithasol, Iaith a Llythrennedd a Datblygiad Mathemategol.

Gwelir cynnydd amlwg yn y nifer o ddisgyblion Bl2 MATh sydd wedi llwyddo, ac mae disgyblion ADY wedi gwneud cynnydd da iawn.

Mae canlyniadau diwedd blwyddyn 6 yn dda iawn gyda 100% wedi cyrraedd Lefel 4 yn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth sy'n gynnydd ers 2018.

Ar ddiwedd blwyddyn 9, mae canlyniadau yn dda, gyda phob pwnc wedi gwneud cynnydd da o safbwynt y niferoedd sydd wedi llwyddo i gael lefel 5 neu'n uwch erbyn diwedd y Cyfnod Allweddol o'i gymharu â llynedd (2018).

Gwelir cynnydd yng nghanlyniadau TGAU yr ysgol eleni hefyd, gyda chynnydd yn y ganran o ddisgyblion sydd wedi llwyddo i ennill graddau A*-C mewn Saesneg (iaith/llenyddiaeth), Cymraeg (iaith /llenyddiaeth), Mathemateg (Mathemateg/Rhifedd) a Gwyddoniaeth Dwyradd, o'i gymharu â llynedd (2018).

Mae cynnydd yn y ganran o ddisgyblion sydd wedi llwyddo i ennill Gradd A* - C mewn nifer o bynciau allgraidd eleni hefyd megis, Cymraeg ail –iaith, Tystysgrif Her Cymru, Celf, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Hanes, Cerdd, Astudiaethau Grefyddol ac Addysg Gorfforol.

Er y cynnydd amlwg yng nghanlyniadau'r ysgol eleni, ni fyddwn yn llaesu dwylo! Rydym wedi adnabod rhai meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach ac mae cynlluniau gwella, camau gweithredu, a phrosesau rheoli ansawdd mewnol ac allanol cadarn wedi cael eu rhoi ar waith yn syth er mwyn ein galluogi i barhau i anelu'n uwch a chodi safonau'r ysgol ymhellach yn y dyfodol.

Rhaglen Gweithgareddau allgyrsiol

- **Clwb Cybi:-**
    - **Safle Dinas Mawddwy**
    - **Safle Dolgellau**
    - **Safle Friog**
    - **Safle Llanelltyd**
    - **Safle Rhyd-y-main**

- **Ymarferion Rygbi:-**
    - **Blynyddoedd 7, 8 a 9**
    - **Blynyddoedd 10 ac 11**

- **Hyfforddiant Cylchol/*Circuit Training***

- **Rygbi '*Just Dance*' Rugby**

- **Ffit Rygbi/*Rugby Fit***

- **Clwb Alpha**

- **Clwb Gwaith Cartref – Prif Safle**
  Clwb Gwaith Cartref yn rhedeg ar y **Prif Safle** ar **Nosweithiau Llun** hyd at **Nosweithiau Iau.** Bydd y sesiwn yn cychwyn am **15:20** ac yn gorffen am **16:30**. Bydd aelod staff cyfrifol yn goruchwylio'r disgyblion yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r Clwb yn agored i ddisgyblion **Blwyddyn 7** hyd at **Flwyddyn 11** yn y lle cyntaf, ond mae croeso i **Flwyddyn 6** fynychu ar Nos Iau.

Cymwysterau ac Arholiadau Allanol

Bydd mwyafrif helaeth y disgyblion yn sefyll arholiadau TGAU tra bydd rhai yn sefyll Tystysgrifau Lefel Mynediad.Yn ogystal, bydd cyfle i ddisgyblion astudio ar gyfer amrywiaeth o bynciau galwedigaethol. Rhennir y cwriwcwlwm CA4 yn ddwy ran, sef y Cwricwlwm Craidd a'r Cwricwlwm Dewisol:

Craidd CA4 Cyfnodau Dysgu:

Pwnc	Nifer o wersi Blwyddyn 10	Nifer o wersi Blwyddyn 11
Cymraeg	4	4
Saesneg	4	4
Mathemateg	4	4
Gwyddoniaeth	6	6
Addysg Gorfforol	1	1
BAC	2	2
Dewis 1	3	3
Dewis 2	3	3
Dewis 3	3	3
Cyfanswm	**30**	**30**

Pynciau Dewisol CA4:

- Gwyddorau Unigol
- Ffrangeg
- Astudiaethau Grefyddol
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Arlunio
- Cerdd
- Dylunio a Thechnoleg - Deunyddiau Gwrthiannol, Tecstiliau, Lletygarwch
- Electroneg
- Addysg Gorfforol

Cyrsiau Cydweithredol:

- Adeiladwaith
- Peirianneg
- Trin Gwallt a Harddwch
- Iechyd a Gofal
- Busnes
- Cyfryngau.

Yn ystod Tymor yr Haf, bydd pob disgybl ym Mlwyddyn 10 yn cael wythnos o 'Brofiad Gwaith' gyda chyflogwr lleol.